

SL(6)072 - Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn pennu'r rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mewn cysylltiad â gwerth ardrethol eiddo annomestig. Defnyddir y gwerth ardrethol i gyfrifo atebolrwydd am ardrethi annomestig.

Effaith y Rheoliadau yw na fydd trethdalwyr eiddo annomestig yng Nghymru yr effeithir arnynt gan:

1. ymateb Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU i'r coronafeirws;
2. unrhyw ofyniad, cyngor neu ganllawiau mewn ymateb i'r coronafeirws gan unrhyw awdurdod cyhoeddus yn y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU neu lywodraeth y tu allan i'r DU, neu
3. fesurau a gymerir i sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth iechyd a diogelwch,

yn gallu dyfynnu'r materion hynny fel rhai sy'n achosi newid perthnasol mewn amgylchiadau at ddibenion apelio o ran gwerth ardrethol eiddo annomestig ar restrau ardrethu 2017.

Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Tachwedd 2021.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 1 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

"Bydd [yr offeryn statudol hwn]... yn dod i rym am 6pm ar y diwrnod y caiff ei osod. Y rhesymeg yw atal unrhyw risg bellach i arian cyhoeddus sy'n deillio o rai apelau ardrethi annomestig sy'n ymwneud â Covid-19."

O ystyried y brys a nodwyd, a'r cyfeiriad at "risg uniongyrchol" i gyllid cyhoeddus ym mharagraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau, mae'r Pwyllgor yn gofyn am esboniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rheswm dros osod y Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar 1 Tachwedd 2021, gan nodi bod rheoliadau cyfatebol sy'n berthnasol i Loegr (sef Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Coronafeirws) (Lloegr) 2021 (OS 2021/398)) wedi'u gosod gerbron Senedd y DU a daethant i rym ar 25 Mawrth 2021, sef dros saith mis cyn y Rheoliadau dan sylw.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn yr esboniad a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn y llythyr dyddiedig 1 Tachwedd 2021 y cyfeiriwyd ato uchod, sef y byddai darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn cael eu disodli gan Fil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) Llywodraeth y DU, os caiff y Bil hwnnw ei basio.

Nodwn ymhellach fwriad Llywodraeth Cymru i ddirymu'r Rheoliadau hyn o dan yr amgylchiadau hynny, fel y nodir ym mharagraff 6 o'r Memorandwm Esboniadol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt rhinweddau cyntaf.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Tachwedd 2021

